**Jane Hutt AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/JH-/0974/19

At holl Aelodau'r Cynulliad

27 Mawrth 2019

Annwyl gyd-Aelodau

Ar 16 Mawrth eleni, cyhoeddais gronfa grant i helpu cymunedau ledled Cymru i ddathlu Diwrnod Windrush ar 22 Mehefin. Mae'n bwysig ein bod yn nodi cyfraniad pwysig cenhedlaeth Windrush i hanes, economi a diwylliant Cymru. Bydd y cyllid hwn yn help i roi cyfle i bawb ddathlu profiad arwyr ac arwresau Windrush a'u cyfraniad i fywyd Cymru.

Ar hyn o bryd, mae gennym grant Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol sy'n cael ei dalu i 8 awdurdod er mwyn cynnal gweithgareddau ymgysylltu o bob math i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Telir y grant i: Gaerdydd, Wrecsam, Ynys Môn, Torfaen, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Casnewydd a Merthyr Tudful. Mae eu gweithgarwch yn cwmpasu pob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Rwy'n bwriadu defnyddio'r drefn hon ar gyfer y cyllid grant newydd.

Caiff swm ychwanegol o £5,000 ei gynnig, felly, i bob un o 8 awdurdod lleol y rhanbarthau cydlyniant cymunedol (£40,000 i gyd) er mwyn galluogi sefydliadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i drefnu digwyddiad / gweithgaredd addysgol mewn perthynas â Diwrnod Windrush ar 22 Mehefin.

I gael gafael ar y cyllid ychwanegol, dylai sefydliadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn eich etholaeth gysylltu â Chydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol eu hardal, a fydd yn arfarnu unrhyw Fynegiant o Ddiddordeb, ac yn defnyddio prosesau'r awdurdod lleol i ddyrannu'r cyllid yn deg. Dyma'r manylion cyswllt:

- Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy: swyddog cyswllt - TonyJones@ynysmon.gov.uk
- Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint: swyddog cyswllt - EqualityBranch@llyw.cymru
- Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro: swyddog cyswllt - EqualityBranch@llyw.cymru
- Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot: swyddog cyswllt - EqualityBranch@llyw.cymru
- Merthyr a Rhondda Cynon Taf: swyddog cyswllt - Amy.McNally@merthyr.gov.uk
- Caerdydd a Bro Morgannwg: swyddog cyswllt - EqualityBranch@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Caerffili, Torfaen  a Blaenau Gwent: swyddog cyswllt - christopher.hunt@torfaen.gov.uk
- Casnewydd a Sir Fynwy: swyddog cyswllt - Heather.Powell@newport.gov.uk

Os bydd sefydliad am gynnal digwyddiad neu weithgaredd sy'n cynnwys mwy nag un ardal, neu bob un o'r ardaloedd, dylai gysylltu â'i Gydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. Bydd y cydgysylltwyr perthnasol yn mynd ati wedyn i arfarnu'r cais hwnnw gyda'i gilydd.

Rydym wedi pennu dydd Gwener, 19 Ebrill fel terfyn amser i'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol dderbyn datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac iddynt ymateb i'w hymholiadau. Os na ddaw cynigion i law gan ranbarth, byddwn yn ailddyrannu'r £5,000 ar gyfer y rhanbarth hwnnw i ranbarthau eraill neu ar gyfer gweithgarwch trawsranbarthol.

Rwy'n gwybod bod sawl un o'ch etholwyr eisoes wedi mynegi diddordeb mewn nodi Diwrnod Windrush yn eu hardal. Gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ei rhannu'n eang ymhlith sefydliadau eich etholaethau.

Yn gywir

Jane

**Jane Hutt AC**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip